

SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL SWYDD:	Cydlynnydd Gweithrediadau (Offer a Chyfarpar)
ATEBOL I:	Rheolwr Gweithrediadau a Cherbydau
ADRAN:	Trwsio - Gwasanaeth Cynnal a Chadw
CYFLOG (£):	Gradd 7

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Mae Adra am benodi Cydlynnydd Gweithrediadau ar gyfer ei adran Atgyweirio a Chynnal a Chadw - Trwsio. Bydd y rôl hon yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl offer a chyfarpar sy'n eiddo neu'n cael eu llogi gan Trwsio ac yn cynorthwyo gyda materion gweithredol eraill ar y safle o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gweithrediadau a Chefnogaeth Cerbydau.

Yn rôl y Cydlynnydd Gweithrediadau bydd disgwyl i chi drefnu, cynnal a rheoli offer a chyfarpar sydd wedi eu prynu neu logi i wneud atgyweiriadau, cynnal a chadw a gwaith mawr ar stoc dai Adra ledled Gogledd Cymru.

Byddwch yn ymwneud â'r caffael cychwynnol, yn gyfrifol am gadw cofrestr o'r holl eitemau, yn cynorthwyo gyda gosod a hyfforddiant, yn trefnu neu'n cynnal gwasanaethu / profi blynyddol a threfnu atgyweiriadau a / neu amnewidiadau lle bo angen ar gyfer yr holl offer a chyfarpar.

Mewn rôl sydd newydd ei chreu rydym yn edrych i gynyddu effeithlonrwydd trwy swyddogaeth ganolog a bydd yr ymgeisydd cywir yn:

- Cydlynu gweithredol ar gyfer holl offer a chyfarpar y sefydliad.
- Rheoli a lleihau costau gweithredol.
- Sicrhau bod offer a chyfarpar mewn cyflwr gweithredu diogel ac effeithlon.
- Cydymffurfio â'r holl reoliadau sy'n berthnasol i'r rôl.
- Creu a chynorthwyo gyda mapio prosesau gweithdrefnau Trwsio sy'n berthnasol i'r rôl.
- Cynorthwyo gyda rhedeg gweithredol y fflyd, stociau faniau, dyfeisiau electronig ar y safle.
- Cyflwyno hyfforddiant ar y safle yn ôl yr angen ar gyfer gweithwyr safle.

Datblygu gwasanaeth gwerth am arian sy'n canolbwyntio ar y cwsmer trwy alluogi a chefnogi'r gweithlu i 'wneud pethau'n iawn y tro cyntaf' a 'chadw at eu gair' a darparu Rhagoriaeth Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA) mewn partneriaeth â Chwsmeriaid, Staff a Darparwyr Gwasanaeth.

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- Arwain ar gaffael offer a chyfarpar newydd yn unol â pholisïau a deddfwriaeth genedlaethol berthnasol.
- Sicrhau bod holl offer a pheiriannau'r sefydliad yn ddiogel i'w defnyddio yn unol â gofynion y sefydliad a gofynion statudol. (Yn cynnwys Dyfeisiau Diogelwch, profion PAT, gwasanaethu blynyddol, graddnodi a gwiriadau diogelwch)
- Caffael a chael gwared ar yr holl offer a chyfarpar yn unol â chynlluniau a chyllidebau busnes.
- Gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau trwy nodi gwelliannau i'r broses a'r system. Mae hyn yn cynnwys adolygu eitemau sy'n cael eu llogi'n gyson a chynnal dadansoddiad gwerth (prynu v llogi)
- Monitro cydymffurfiad ag agweddau perthnasol ar ofynion iechyd a diogelwch gweithredol a deddfwriaethol
- Cynorthwyo gyda dyletswyddau gweithredol eraill yn ôl yr angen i sicrhau bod darparu gwasanaethau yn effeithlon ac mewn ffordd ddiogel sy'n cydymffurfio.
- Rheoli a chynnal cofrestr / rhestr ganolog gynhwysfawr o'r holl offer a chyfarpar sy'n eiddo i Trwsio ac sy'n cael ei logi.
- Cynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol a bod yr holl eitemau rhestredig yn cael eu cyfrif ac yn addas at y diben.
- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer caffael (os oes angen) offer newydd, gan sicrhau nad yw'r eitem eisoes (ac nad yw'n cael ei defnyddio) yn ein rhestr eiddo, bod gennym ddigon o gyllideb ac os caiff ei brynu ei fod yn dod o'r gyllideb gywir.
- Cysylltu â'r rheolwyr ar anghenion offer a chyfarpar Trwsio yn y dyfodol.
- Cyhoeddi / monitro / a chael gwared ar yr holl offer a darparu dogfennaeth yn ôl yr angen.
- Paratoi pecynnau offer ar gyfer gweithwyr newydd.
- Cynorthwyo gyda monitro ac archwilio stoc fan.
- Sicrhau fod eich PDA bob amser yn gwbl weithredol fel y gellir defnyddio buddion gweithio symudol yn llawn.
- Sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch yn unol â pholisi a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch Adra a dangos ymrwymiad i ragoriaeth IDAA
- Cynnal gwiriadau cerbydau personol gofynnol yn unol â pholisi a gweithdrefnau fflyd Adra a gwiriadau chwarterol o gerbydau gweithredol i gefnogi rheolwr y fflyd.
- Sicrhau fod unrhyw faterion yn cael eu trosglwyddo'n brydlon i'ch rheolwr llinell.
- Cynnal gwiriadau ar Offer (LOLER, Calibradu, Gwasanaethu, PAT ac ati)
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio yn unol â GDPR ac unrhyw ganllawiau deddfwriaethol eraill.
- Gweithio fel aelod effeithiol o dîm sy'n rheoli ei hun sydd ag ymdeimlad o gyfrifoldeb a phwrpas ar y cyd ac i ddarparu cefnogaeth a chynghor i gydweithwyr lle bo hynny'n briodol.

AMGYLCHIADAU ARBENNIG:

Efallai y bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd weithio oriau anghymdeithasol weithiau er mwyn cwrdd â gofynion y busnes y gwasanaeth ac i weithio yn lle rhywun mewn argyfwng.

Ni all unrhyw swydd ddisgrifiad ymdrin â phopeth a all godi fel rhan o'r swydd ar wahanol adegau. Er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol efallai y bydd disgwyl i chi ymgymryd â thasgau rhesymol eraill, sy'n cyfateb i raddau helaeth â'r rhai a geir yn y ddogfen hon fel y pennir gan eich rheolwr llinell, Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu Gyfarwyddwr.

MANYLEB PERSON	HANFODOL/ DYMUNOL
CYMWYSTERAU	
Safon addysg dda (cyfatebol i 5 TGAU gradd C neu uwch) neu brofiad perthnasol mewn swydd berthnasol.	H
Cymhwyster rheoli cydnabyddedig	D
City & Guilds 2377 Profi Offer Symudol neu gyfatebol	D
PROFIAD, GWYBODAETH A SGILIAU	
Profiad o reoli amserlenni offer, cyfarpar neu fflyd	H
Profiad o mewn rôl debyg mewn amgylchedd tebyg	D
Gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol gan gyfeirio'n benodol at ofynion deddfwriaethol cynnal a chadw gofynnol ar gyfer peiriannau a chyfarpar ac offer yn y diwydiant adeiladu.	H
Sgiliau trefnu, gweinyddu a gwybodaeth TG da ar Microsoft Office (Excel, Word, Outlook ac ati), PDA (cyfrifiadur palmtop)	H
Sgiliau rhyngpersonol da a gallu wedi'i brofi i gyfathrebu yn effeithiol gyda chwsmeriaid a chyd-weithwyr	H
Yn gallu blaenoriaethu a threfnu eich llwyth gwaith eich hun mewn ffordd effeithlon ac effeithiol	H
Yn gallu i adnabod, asesu a datrys problemau yn gyflym ac mewn ffordd arloesol	H
Yn gallu i weithio heb oruchwyliaeth a gallu dangos eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau.	H
Yn gallu ac ar gael i deithio ar draws yr ardaloedd lle mae gan y sefydliad eiddo	H
Gallu dangos agwedd gadarnhaol tuag at newid	H
ARALL	
Trwydded yrru llawn, glân	H
GOFYNION IEITHYDDOL	
Gallu cyffredinol i gyfathrebu yn Gymraeg a'r Saesneg gan gynnwys dweud enwau llefydd / enwau cyntaf Cymraeg, rhoi a derbyn manylion a darparu cyfarchiad dwyieithog.	H